**LC270**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2001

**Y cefndir**
Mae Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn darparu i'r awdurdodau lleol wneud 'trefniadau gweithrediaeth' sy'n caniatáu iddynt greu a gweithredu gweithrediaeth i'r awdurdod. Bydd y weithrediaeth yn ymgymryd â swyddogaethau penodol a oedd gynt yn cael eu cadw i'r awdurdod lleol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaeth fanwl mewn perthynas â gwneud trefniadau i swyddogaethau'r weithrediaeth gael eu cyflawni gan bwyllgor ardal, awdurdod lleol arall, gweithrediaeth awdurdod lleol arall, neu ar y cyd ag awdurdod lleol arall.

Mae rheoliadau tebyg, nad ydynt yn hollol yr un fath, wedi'u gwneud ar gyfer Lloegr yn OS 2000/2851, a ddaeth i rym ar 16 Mawrth 2000.

**Rheol Sefydlog 11.5**
Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Y rhaglith**
Mater bach ynghylch ffurf yn unig yw hwn, ond awgrymir y dylai'r rhestr o adrannau ddarllen fel a ganlyn –

"… 105(2) a 106(1), (2) o …"

**Rheoliad 11(8)**
Bydd angen cwblhau'r troednodyn cyn cyhoeddi.

Mick Bates AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

5 Mehefin 2001